19 Gorffennaf 2016

Annwyl Swyddog Cyfrifol

Diwygiadau i'r Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro

O heddiw, mae Cymwysterau Cymru wedi diwygio'r Amodau Cydnabod Safonol Dros Dro (yr Amodau) fel a ganlyn:

- Mae'r termau Cymeradwy a Dynodedig wedi cael eu rhoi mewn prif lythrennau ac mewn testun trwm yn yr Amodau.
- Mae diffiniadau ar gyfer y termau cymwysterau Cymeradwy, Dynodedig a Rheoleiddiedig wedi'u cynnwys yn Adran J.
- Dilëwyd diffiniadau ar gyfer y termau Dyfarniad, Tystysgrif, Diploma, Dysgwr a logo Llywodraeth Cymru o Adran J gan y tybir nad oes eu hangen neu nad ydynt yn gymwys mwyach.
- Diwygiwyd dehongliad J1.2(f) i ddileu'r term 'sefydliad dyfarnu'.
- Diwygiwyd y diffiniad ar gyfer 'Cronfa ddata Cymwysterau' i gynnwys cyfeiriadau at Cymwysterau yng Nghymru yn unig.
- Dilëwyd Amod E6.1 i adlewyrchu'r ffaith nad oes angen i gyrff dyfarnu cydnabyddedig gyflwyno cymwysterau i Cymwysterau yng Nghymru er mwyn i'r cymwysterau hynny gael eu hystyried yn rhai wedi'u rheoleiddio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch y diwygiadau hyn, cysylltwch â Polisi Strategol yn policy@Qualificationswales.org.

Yn gywir

Laura Porter
Pennaeth Polisi Strategol

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701